**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Cox
Pennaeth Goruchwylio (Cymru), Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid (Cymru)

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl Mark,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o’n hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi’n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a’r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy’n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:

- Rhyngweithio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid â phlant sy'n mynd ar goll ac sy’n ddioddefwyr camfanteisio troseddol ar blant. Beth y gall hynny ei ddweud wrthym am natur a maint y broblem yng Nghymru, gan gynnwys amrywiadau rhanbarthol?
- Sut y mae'r Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio i atal camfanteisio ar blant gan gangiau troseddol a fyddai’n eu harwain wedyn i ymddygiad troseddol?

- A allwch ddarparu gwybodaeth am unrhyw gyllid y mae'r Byrddau wedi'i ddyrannu i hwyluso ymdrechion cydweithredol ymhlith rhanbarthau, yn benodol mentrau ar gyfer nodi a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg ym maes cyfiawnder ieuenctid sy'n cefnogi plant sydd naill ai'n dioddef camfanteisio troseddol neu sydd mewn perygl o'i ddioddef? Yn ogystal, a allech gadarnhau a yw un neu ragor o'r rhanbarthau a ariennir hyn yng Nghymru?

- A allwch ymhelaethu ar rôl y Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid o ran mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn adroddiad yr Athro John Pitts, a amlygodd fod yr ymatebion i gamfanteisio'n droseddol ar blant yn aml wedi bod yn anghyson ac wedi cael eu cydlynu'n wael?

- A yw'r Byrddau wedi ystyried rôl technoleg a rhyngweithiadau ar-lein o ran arwain plant i weithgarwch troseddol, yn enwedig lle gall oedolion gamfanteisio arnynt i gyflawni gweithgareddau troseddol?


- A yw'r Byrddau wedi asesu effaith yr amharu a achoswyd gan bandemig COVID-19, yn enwedig o ran mynediad at addysg, yn nhermau'r risg y bydd plant yn mynd ar goll neu'n ymhél â gweithgareddau troseddol?

- A yw'r Byrddau wedi cynnal unrhyw asesiadau i bennu a yw plant o gefndiroedd difreintiedig, yn enwedig plant o gymunedau hil lleiafrifiedig, mewn mwy o berygl o gamfanteisio troseddol?

- Unrhyw argymhellion yr hoffech i'r Pwyllgor eu hystyried yn hyn o beth.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.